Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Hafod Lon

Parc Busnes Eryri
Penrhyndeudraeth
Gwynedd
LL48 6LD

Dyddiad yr arolygiad:  Mawrth 2026

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg

a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Hafod Lon

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Hafod Lon |
| Awdurdod lleol | Cyngor Gwynedd |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Categori ysgol yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg | Cymraeg |
| Math o ysgol | Arbennig a Gynhelir |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 128 |
| Disgyblion o oedran ysgol statudol | 88 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | 0 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Arbennig a Gynhelir yw 45.8%) | 28.9% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Arbennig a Gynhelir yw 100.0%) | 100.0% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 65% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 2% |
| Partner arweiniol ar gyfer Addysg gychwynnol athrawon | Ydy |

| | |
|---|---|
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/09/2004 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | 05/02/2018 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 02/03/2026 |

### Gwybodaeth ychwanegol

Mae Ysgol Hafod Lon yn ysgol ddydd arbennig wedi'i lleoli ar gyrion pentref Penrhyndeudraeth. Mae'n un o ddwy ysgol arbennig a gynhelir gan awdurdod lleol Gwynedd. Mae gan bron bob un o'r disgyblion gynllun addysg unigol. Mae'r ysgol yn darparu ar gyfer ystod eang o anghenion dysgu ychwanegol, gan gynnwys anawsterau dysgu difrifol, anawsterau dysgu dwys a lluosog ac anhwylderau'r sbectrwm awtistig.

Ar hyn o bryd, mae 128 o ddisgyblion rhwng 3 ac 19 oed ar y gofrestr. Daw'r rhan fwyaf o ddisgyblion o ardal Meirionnydd a Dwyfor a daw ychydig iawn ohonynt o ardal Arfon ac awdurdodau lleol cyfagos. Mae oddeutu hanner y disgyblion yn siarad Cymraeg gartref. Mae tua 29% o ddisgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Mae ychydig iawn o ddisgyblion yn derbyn gofal gan yr awdurdod lleol.

Daw'r data hwn o ddata diweddaraf y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgyblion. Efallai byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol: [Fy Ysgol Leol (gov.wales)]

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol

## Crynodeb

Mae Ysgol Hafod Lon yn gymuned fywiog, ofalgar a chroesawgar lle mae disgyblion yn ymateb yn gadarnhaol iawn i ethos cynhwysol a chefnogol yr ysgol. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cryf mewn ystod eang o fedrau sy'n cefnogi eu datblygiad personol ac yn eu paratoi'n effeithiol ar gyfer bywyd yn y dyfodol. Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddatblygu medrau byw'n annibynnol a phrofiadau galwedigaethol, sy'n eu paratoi'n dda ar gyfer y camau nesaf mewn addysg, hyfforddiant neu waith. Mae pob disgybl yn derbyn achrediadau priodol ac yn symud ymlaen i golegau arbenigol, canolfannau dydd neu i fyd gwaith. Mae staff hefyd yn meithrin ymdeimlad balch o Gymreictod ac yn sicrhau bod hunaniaeth, iaith a diwylliant Cymru yn rhan amlwg o fywyd yr ysgol. Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn gadarn.

Mae gan bob disgybl anghenion dysgu ychwanegol ac mae staff yn adnabod yr anghenion hyn yn dda iawn. Maent yn darparu cefnogaeth effeithiol ac yn cynnig cyfleoedd cyfoethog i ddisgyblion weithio tuag at eu targedau personol. Defnyddir adnoddau'r ysgol yn hynod effeithiol, gan gynnwys y pwll hydrotherapi, yr ystafell therapi adlam a'r ardaloedd awyr agored, i gefnogi dysgu a lles disgyblion. Mae'r ddarpariaeth synhwyraidd a therapiwtig yn nodwedd gref o waith yr ysgol ac yn cefnogi ymgysylltiad, lles a chynnydd disgyblion yn effeithiol.

Mae'r ysgol yn gweithio'n effeithiol iawn gyda rhieni, asiantaethau iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a phartneriaid eraill i sicrhau dull cynhwysol o ddiwallu anghenion cymhleth y dysgwyr. Mae rhieni'n cael cefnogaeth i ddefnyddio strategaethau sy'n helpu datblygiad eu plant, ac mae cysylltiadau cryf rhwng y cartref a'r ysgol. Mae disgyblion hefyd yn cael cyfleoedd rheolaidd i ymweld â busnesau a lleoliadau lleol, gan ddatblygu medrau cymdeithasol a bywyd pwysig mewn cyd-destunau go iawn.

Mae addysgu'n effeithiol ar draws yr ysgol ac yn seiliedig ar ddealltwriaeth gadarn o anghenion y disgyblion. Mae staff yn cynllunio gweithgareddau ymarferol a diddorol sy'n adeiladu ar ddysgu blaenorol ac yn canolbwyntio ar gamau bach o gynnydd. Defnyddir dulliau cyfathrebu amrywiol, gan gynnwys arwyddion a dyfeisiau cyfathrebu, i gefnogi datblygiad medrau cyfathrebu'r disgyblion. Mae cymorthyddion addysgu yn darparu cymorth effeithiol iawn ac yn annog disgyblion i ymgysylltu'n frwdfrydig â'u dysgu. Defnyddir asesu ac adborth yn llwyddiannus i olrhain cynnydd a gwella dysgu.

Mae'r ysgol yn cynllunio datblygiad medrau disgyblion yn effeithiol iawn ar draws y cwricwlwm. Mae disgyblion yn gwneud cynnydd cryf yn eu medrau cyfathrebu, cymdeithasol, annibynnol, corfforol a chreadigol. Maent yn datblygu medrau bywyd gwerthfawr drwy weithgareddau fel gweithio yn y caffi, gofalu am randiroedd a chymryd

rhan mewn mentrau busnes. Mae llawer hefyd yn cael cyfleoedd profiad gwaith yn y gymuned. Mae darpariaeth synhwyraidd yr ysgol yn nodwedd gref, gyda disgyblion yn elwa ar amrywiaeth o brofiadau synhwyraidd a therapiwtig.

Mae'r cwricwlwm yn eang, cytbwys ac wedi'i gynllunio'n ofalus i ddiwallu anghenion pob disgybl. Mae disgyblion yn dilyn llwybrau dysgu pwrpasol sy'n cefnogi eu datblygiad a'u dyheadau ar gyfer y dyfodol. Mae cyfleoedd cyfoethog i ehangu eu profiadau, gan gynnwys mentrau busnes, gweithgareddau cymunedol a rhaglenni fel Gwobr Dug Caeredin.

Mae arweinyddiaeth yr ysgol yn gadarn ac yn seiliedig ar weledigaeth glir ar gyfer datblygiad disgyblion. Mae arweinwyr yn hyrwyddo diwylliant cryf o les, diogelu a datblygiad proffesiynol staff. Mae prosesau monitro a gwerthuso effeithiol yn helpu'r ysgol i nodi cryfderau a chynllunio ar gyfer gwelliant parhaus. Mae llywodraethwyr yn deall gwaith yr ysgol yn dda ac yn herio a chefnogi arweinwyr yn briodol, tra bod cyllid yn cael ei reoli'n effeithiol i gefnogi ansawdd addysgu a lles disgyblion.

O ganlyniad i'r ddarpariaeth effeithiol a'r arweinyddiaeth gadarn, mae disgyblion yn gwneud cynnydd cryf ac yn cael eu paratoi'n dda ar gyfer eu bywydau y tu hwnt i'r ysgol.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud un argymhelliad i helpu'r ysgol barhau i wella

A1 Parhau i ledaenu'r arferion mwyaf effeithiol ar draws yr ysgol a thu hwnt

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif werthusiad

Mae Ysgol Hafod Lon yn gymuned fywiog, ofalgar a chroesawgar. Mae’r disgyblion yn ymateb yn gadarnhaol iawn i ethos cynhwysol a chefnogol yr ysgol. O ganlyniad, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cryf mewn ystod eang o fedrau allweddol sy’n cefnogi eu datblygiad personol ac yn eu paratoi’n effeithiol iawn ar gyfer bywyd yn y dyfodol. Maent yn datblygu hyder, gwydnwch a’r gallu i gymryd rhan yn fwy annibynnol mewn gweithgareddau bob dydd. Mae disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn yr ysgol ac yn elwa ar gymorth ac arweiniad gofalus gan staff. Mae pob disgybl yn derbyn achrediadau ar lefel addas ac yn symud ymlaen i golegau arbenigol, i ganolfannau dydd neu i fyd gwaith pan fyddant yn gadael yr ysgol. Mae hyn yn nodwedd gref.

Mae staff yn meithrin ymdeimlad balch o Gymreictod, gan sicrhau bod hunaniaeth, iaith a diwylliant Cymru yn flaenoriaeth ym mhob agwedd o fywyd disgyblion.

Mae arweinwyr yn hyrwyddo diwylliant cryf o ddiogelu. Mae trefniadau’r ysgol ar gyfer cadw disgyblion yn ddiogel yn gadarn.

### Cefnogi anghenion disgyblion a chefnogi teuluoedd

Mae gan bob disgybl anghenion dysgu ychwanegol (ADY) ac mae ganddynt gynlluniau datblygu unigol (CDU) wedi eu cynnal gan yr awdurdod lleol. Mae anghenion unigolion wedi eu hadnabod yn glir ac mae staff yn darparu’r gefnogaeth i ddiwallu’r anghenion hyn yn effeithiol. Mae deilliannau priodol yn cael eu gosod ar gyfer disgyblion ac mae staff yn darparu cyfleoedd cyfoethog i ddisgyblion weithio tuag at eu targedau personol.

Mae staff yn gwneud defnydd hynod o effeithiol o ystod o adnoddau ysgogol yr ysgol. Caiff y rhain eu teilwra’n llwyddiannus i ddiwallu anghenion unigol disgyblion, gan gynnwys, er enghraifft, y pwll hydro, yr ystafell therapi adlam a’r ardaloedd awyr agored cyfoethog. Mae’r ddarpariaeth synhwyraidd hon yn helpu disgyblion i ymgysylltu’n fwy effeithiol â’u dysgu ac yn cyfrannu’n gadarnhaol at eu lles a’u cynnydd.

## Ciplun: Gweithio mewn partneriaeth

Mae arweinwyr a staff yn datblygu a chynnal partneriaethau strategol cryf sy’n cyfrannu’n uniongyrchol at les, cynnydd a phrofiadau ehangach y disgyblion. Mae’r ysgol yn cydweithio’n hynod effeithiol â rhieni, asiantaethau iechyd, gwasanaethau cymdeithasol, ysgolion eraill a sefydliadau cymunedol i sicrhau dull hollol gynhwysol sy’n diwallu anghenion cymhleth y disgybl. O ganlyniad, mae’r ysgol yn ymateb yn sensitif ac yn effeithiol i’w hanghenion.

Mae ymarfer person ganolog yn cyfrannu’n fwriadus at berthnasoedd llwyddiannus rhwng yr ysgol a rhieni. Mae rhieni’n  cael cefnogaeth ar ddefnyddio strategaethau cytûn i gefnogi anghenion eu plant. Er enghraifft, mae arweinwyr wedi sefydlu grŵp ar y cyd â rhieni sy’n eu cefnogi i ddatblygu medrau cyfathrebu, dulliau chwarae a lles emosiynol y disgyblion. O ganlyniad, mae rhieni’n teimlo’n fwy hyderus wrth gefnogi cynnydd a lles eu plant ac mae strategaethau cyson rhwng y cartref a’r ysgol yn cefnogi disgyblion yn effeithiol.

Mae staff ymddygiad yr ysgol yn cefnogi disgyblion yn effeithiol i hunanreoleiddio a chyfathrebu eu teimladau. Maent yn dadansoddi patrymau ymddygiad yn fedrus, ac yn addasu’r ddarpariaeth i ddiwallu anghenion unigolion. Er enghraifft, mae staff wedi datblygu ystafelloedd synhwyraidd ac ardal ymlacio i helpu disgyblion i hunanreoleiddio.

Mae teithiau rheolaidd i siopau a chaffis lleol yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddatblygu medrau bywyd mewn sefyllfaoedd go iawn. Mae staff yn rhannu adnoddau cyfathrebu â busnesau lleol i’w helpu i ddeall anghenion y disgyblion. O ganlyniad, mae disgyblion yn datblygu hyder ac yn cymhwyso eu medrau cymdeithasol yn llwyddiannus mewn cyd-destunau bob dydd.

Mae arweinwyr wedi sefydlu prosesau trosglwyddo buddiol ar gyfer disgyblion a theuluoedd. Mae datblygu perthnasoedd cadarn yn digwydd yn gynnar, cyn i ddisgyblion gychwyn yn Hafod Lon. Mae staff yn cyfarfod gyda rhieni, yn ymweld ag ysgolion, yn arsylwi a chreu perthnasoedd gwerth chweil cynnar. O ganlyniad, mae teuluoedd yn teimlo wedi eu cefnogi ac mae disgyblion yn dod i adnabod staff ac amgylchedd yr ysgol newydd. Mae hyn yn arwain at ymgartrefu llwyddiannus a chynnydd cynnar buddiol ym medrau disgyblion.

## Addysgu effeithiol

Mae staff addysgu yn creu amgylcheddau dysgu croesawgar a chadarnhaol. Maent yn meithrin perthnasoedd gweithiol effeithiol a chefnogol â disgyblion. Mae staff addysgu yn adnabod  disgyblion yn dda iawn ac mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o’u hanghenion dysgu ychwanegol. Mae staff addysgu yn defnyddio’r wybodaeth hon yn effeithiol ac yn hyblyg iawn i gynllunio gweithgareddau dysgu ymarferol, ysgogol a chydlynus. Yn y gwersi mwyaf effeithiol, mae’r dysgu a’r addysgu wedi ei gynllunio’n fwriadus o fewn cyd-destun

bywyd go iawn  disgyblion. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymgysylltu'n frwdfrydig â'u dysgu ac yn datblygu ystod eang o fedrau pwysig.

Mae'r addysgu'n adeiladu'n effeithiol ar ddysgu blaenorol  disgyblion ac yn canolbwyntio ar ddatblygu camau bach o gynnydd. Mae athrawon yn cynllunio gweithgareddau diddorol sy'n datblygu ystod eang o fedrau, gan gynnwys ffocws clir ar fedrau cyfathrebu ac annibyniaeth. Mae llawer o staff yn gwneud defnydd effeithiol o ddulliau cyfathrebu dewisol y disgyblion, gan gynnwys arwyddion a dyfeisiau cyfathrebu eraill. O ganlyniad, mae medrau cyfathrebu'r disgyblion yn datblygu'n effeithiol iawn.

Mae cymorthyddion addysgu yn darparu cymorth hynod effeithiol. Maent yn annog ac yn ysgogi disgyblion yn bwrpasol. O ganlyniad, mae disgyblion yn ymgysylltu'n frwdfrydig ac yn arddangos agweddau cadarnhaol at eu dysgu.

Mae staff addysgu yn sefydlu arferion buddiol wrth i ddisgyblion symud o un weithgaredd i'r llall, gan ddefnyddio amserlenni a chliwiau gweledol. O ganlyniad, mae disgyblion yn hyderus, yn setlo'n dda ac yn barod i ymgysylltu â'u dysgu. Yn ogystal, mae staff yn cefnogi disgyblion yn sensitif gyda gweithgareddau a seibiannau synhwyraidd yn ystod gwersi i hyrwyddo ymgysylltiad.

Defnyddir dulliau asesu ac adborth yn effeithiol iawn ar draws yr ysgol i wella medrau ac ymddygiad disgyblion. Yn y rhan fwyaf o wersi, mae adborth llafar yn gadarnhaol ac yn symud dysgu ymlaen. Mae hyn yn meithrin amgylchedd lle mae disgyblion yn hyderus i ddysgu o'u camgymeriadau ac yn falch o'u cyflawniadau.

Mae gan yr ysgol drefniadau effeithiol iawn ar gyfer asesu ac adolygu cynnydd disgyblion. Mae staff yn casglu a dadansoddi gwybodaeth o ystod o fframweithiau pwrpasol i olrhain cynnydd disgyblion, gan gynnwys data ar gyflawni targedau personol 'camau bach o ddysgu'. Defnyddir y targedau hyn yn llwyddiannus i hyrwyddo dysgu a chynnydd mewn medrau sy'n bwysig i bob disgybl.

### Datblygu medrau

Mae arweinwyr a staff addysgu yn cynllunio datblygiad medrau disgyblion yn effeithiol iawn. Mae hyn yn arwain at gyfleoedd helaeth i ddisgyblion ddatblygu a chymhwyso eu medrau cyfathrebu, cymdeithasol, creadigol, corfforol ac annibynnol ar draws y cwricwlwm. O ganlyniad, mae'r  rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cryf o'u mannau cychwyn mewn ystod o fedrau sy'n bwysig iddyn nhw.

Mae'r  rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd effeithiol iawn yn eu medrau cyfathrebu yn ystod eu hamser yn yr ysgol. Maent yn defnyddio ystod eang, amrywiol a phwrpasol o ddulliau cyfathrebu i ateb cwestiynau, rhannu gwybodaeth a mynegi eu barn yn hyderus. Yn y gwersi, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrando'n astud ar eu hathrawon a'u cymorthyddion, ac yn ymateb yn briodol gan ddefnyddio eu dull cyfathrebu

dewisol. Mae ychydig o ddisgyblion yn cyfleu eu dewisiadau drwy anelu eu golwg at luniau, tra bod llawer yn defnyddio arwyddion a symbolau yn hyderus i gefnogi eu cyfathrebu. Er enghraifft, maent yn defnyddio arwyddion a symbolau wrth adnabod eitemau'r Gwanwyn ac wrth ofyn i staff addysgu daflu'r bêl eto. Mae disgyblion sydd â medrau cyfathrebu llafar datblygedig yn defnyddio'u medrau'n llwyddiannus mewn amrywiaeth o gyd-destunau, gan gynnwys wrth weithio, chwarae a chydweithio ag oedolion. Er enghraifft, maent yn trafod y lleoliadau mwyaf addas ar gyfer gosod eu bocsys adar ac yn mynegi barn resymegol wrth drafod pwy fyddai'r Prif Weinidog gorau nesaf i Gymru. Dros amser, mae pob disgybl yn gwneud cynnydd arwyddocaol yn ei fedrau cyfathrebu personol o'i fan cychwyn. Mae hyn yn cyfrannu'n sylweddol at eu boddhad, eu hyder a'u llwyddiant cyffredinol yn yr ysgol.

Mae disgyblion yn datblygu medrau cymdeithasol gwerthfawr trwy gydweithio gyda'i gilydd yn llwyddiannus iawn. Maent yn cefnogi ei gilydd i oresgyn anawsterau a dyfalbarhau'n hynod o effeithiol. Maent yn dangos empathi at ei gilydd yn naturiol o fewn darpariaeth gynhwysol yr ysgol.

Mae'r  rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau dysgu annibynnol gwerthfawr yn ystod eu hamser yn yr ysgol. Maen nhw'n dilyn trefn a rwtîn eu gweithgareddau dysgu yn effeithiol. Lle bo'n berthnasol, mae disgyblion yn datblygu eu medrau byw yn annibynnol yn llwyddiannus iawn drwy gyfrannu mewn gweithgareddau buddiol fel gweithio yng Nghaffi Paned Penrhyn a gofalu am y gerddi a'r planhigion yn y rhandiroedd. Maent hefyd yn cymryd rhan mewn menter fasnachol lle maent yn gwerthu cerdiau, planhigion, llysiau a ffrwythau. Yn ogystal, mae llawer o ddisgyblion ôl-16 yn cael cyfleoedd gwerthfawr i fynychu sesiynau profiad gwaith yn y gymuned, gan eu paratoi'n effeithiol ar gyfer bywyd ar ôl yr ysgol.

Mae llawer o ddisgylion yn elwa o gyfleoedd i ddatblygu eu medrau corfforol yn effeithiol iawn. Lle bo'n berthnasol, mae ychydig o ddisgyblion yn ymlacio eu cyhyrau ac yn gwella ystum y corff yn ystod sesiynau ar y trampolîn neu yn y pwll hydro. Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu medrau corfforol yn effeithiol gan gynnwys taflu peli i mewn i hetiau Cymreig, chwarae a dringo ar yr offer yn ardaloedd allanol atyniadol yr ysgol, yn ogystal â mwynhau gweithgareddau fel Gemau Arbennig Cymru neu sgïo ar deithiau ysgol i Norwy a'r Eidal.

Mae datblygiad medrau creadigol disgyblion yn nodwedd gref. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cael cyfleoedd cyfoethog i fwynhau canu, chwarae offerynnau a dawnsio gyda'i gilydd o fewn gwersi, mewn sioeau Nadolig a phrofi llwyddiannau mewn Eisteddfodau. Mae disgyblion yn creu darnau o waith celf lliwgar wrth efelychu gwaith Pablo Picasso.

Mae’r ysgol wedi datblygu darpariaeth hynod effeithiol ar gyfer dysgu synhwyraidd, sy’n nodwedd amlwg o waith yr ysgol. Mae staff wedi datblygu amgylcheddau dysgu ysgogol gydag amrywiaeth o adnoddau deniadol, sy’n galluogi disgyblion i archwilio a dysgu’n ddiogel. Mae disgyblion yn profi gweadau amrywiol fel pridd a dŵr gan ddefnyddio eu synnwyr cyffwrdd,  arogli cennin pedr a gwrando ar rhythmau ar offerynnau taro. Maent yn dilyn gwrthrychau sy’n goleuo, ac yn elwa ar sesiynau rheolaidd yn y pwll hydrotherapi a’r ystafelloedd synhwyraidd a rhyngweithiol.

## Cwricwlwm cyffrous

Mae’r ysgol yn darparu cwricwlwm eang a chytbwys sy’n cynnig profiadau cyfoethog a diddorol. Mae’r cwricwlwm uchelgeisiol wedi’i gynllunio’n ofalus i ddiwallu gofynion ac anghenion pob disgybl ar draws yr ystod oedran. Mae arweinwyr wedi cynnwys cyfraniadau gwerthfawr gan staff, disgyblion, rhieni ac asiantaethau arbenigol wrth gynllunio ei chwricwlwm. Mae disgyblion yn dilyn un o chwe llwybr dysgu pwrpasol o fewn yr ysgol. Mae’r strategaeth hon yn sicrhau bod y disgyblion yn cael mynediad at weithgareddau buddiol sy’n adlewyrchu eu hanghenion unigol ac yn adnabod camau nesaf yn eu datblygiad. O ganlyniad, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymgysylltu’n effeithiol iawn â gweithgareddau ac yn gwneud cynnydd da.

Mae staff addysgu medrus yn cynllunio rhaglenni dysgu yn ddeallus i ddiwallu anghenion unigol disgyblion ac yn addasu’r cynllunio, yn ôl yr angen. Mae’r ffocws cryf ar annibyniaeth a medrau cyfathrebu ac emosiynol wrth gynllunio yn gryfder.

Mae arweinwyr a staff yn cydweithio i ddarparu cyfleoedd hynod o gyfoethog i ddisgyblion i ehangu eu gorwelion a’u dyheadau ar gyfer y dyfodol. Maent yn darparu cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu mentrau busnes gwerth chweil yn ogystal â medrau ar gyfer byd gwaith. Mae hyn yn arwain yn uniongyrchol at ddisgyblion yn cael eu cyflogi’n  lleol ac i ddechrau prentisiaethau. Drwy hyn, mae disgyblion yn datblygu ymdeimlad o berthyn fel dinasyddion llawn o’u hardal, eu cynefin a’r economi leol.

Mae ystod eang o bartneriaid arbenigol yn gwneud cyfraniad gwerthfawr at greu cwricwlwm sy'n diwallu anghenion y disgyblion yn dda iawn, gan gynnwys cefnogaeth i raglen Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb gynhwysfawr. Mae arweinwyr yn darparu ystod eang o gyfleoedd cyffrous yn fwriadus i gyfoethogi’r cwricwlwm, gan gynnwys rhaglenni Dug Caeredin aur a theithiau sgïo tramor.

## Gwrando ar ddisgyblion

Trwy waith y Cyngor Ysgol, mae staff yn darparu cyfleoedd i ddisgyblion ddylanwadu’n effeithiol ar waith a chyfeiriad strategol yr ysgol, yn ogystal â datblygu medrau arwain y disgyblion. Maent yn cyfrannu’n llwyddiannus at flaenoriaethau’r ysgol, gan gynnwys cynllunio’r ddarpariaeth a’r offer yn yr ardal allanol, at ddefnydd eu cyfoedion.

## Arweinyddiaeth gadarn

Mae uwch arweinwyr yr ysgol yn angerddol ac ymroddgar. Maent wedi gweithio mewn partneriaeth agos â holl deulu'r ysgol wrth ffurfio a rhannu gweledigaeth glir. Maent yn cydweithio'n effeithiol i baratoi pob disgybl ar gyfer bod yn gyfathrebwyr annibynnol, parchus sy'n medru cymryd rhan weithredol yn eu cymunedau. Mae'r tîm cyfan o staff a llywodraethwyr yn dilyn esiampl gadarn ac egnïol yr arweinwyr wrth gynnig y profiadau gorau posibl i'r disgyblion. O ganlyniad, mae diwylliant cryf o gydweithio, lles a dysgu proffesiynol yn amlwg ar draws yr ysgol.

Mae arweinwyr yn sicrhau bod yr holl staff yn rhoi lles disgyblion wrth wraidd popeth sy'n digwydd yn yr ysgol. Mae arweinwyr hefyd yn rhoi pwyslais cryf ar les staff. Maent yn ystyried lles pob aelod, gan dalu sylw i'w llwyth gwaith. Mae arweinwyr yn sicrhau ethos cynhaliol a chefnogol sy'n galluogi staff i rannu unrhyw bryderon drwy sgyrsiau rheolaidd a thrwy ap benodol. Mae hyn yn arwain at dîm staff ymroddedig a gwydn sy'n gwerthfawrogi'r gefnogaeth, yr her a'r arweiniad.

Mae gan y pennaeth ddisgwyliadau uchel ohoni hi ei hun a'r holl staff. Mae hi wedi dosbarthu rolau a chyfrifoldebau yn synhwyrol er mwyn diwallu anghenion disgyblion ac ysgogi gwelliant. Mae'n sicrhau bod gan y tîm cyfan y medrau a'r wybodaeth i gwblhau eu dyletswyddau yn effeithiol.

Mae arweinwyr yn gweithredu prosesau monitro a gwerthuso cynhwysfawr a phwrpasol sydd wedi'u cynllunio'n strategol. Mae'r prosesau wedi ymsefydlu'n gadarn ac mae pob aelod o staff yn cyfrannu'n bwrpasol tuag atynt. Mae arweinwyr hefyd yn sicrhau llais disgyblion, rhieni, partneriaid ehangach a'r llywodraethwyr yn y broses. Mae arweinwyr yn defnyddio'r dystiolaeth o'r prosesau hyn yn effeithiol i nodi cryfderau ac i lywio cynllunio gwelliant, gan arwain at flaenoriaethau clir a pherthnasol. Dros amser, mae arweinwyr yn sicrhau gwelliannau cyson er budd disgyblion, er enghraifft cysoni'r ddarpariaeth ar gyfer cefnogi medrau cyfathrebu, darllen ac ysgrifennu disgyblion drwy'r ysgol.

### Ciplun: Hyrwyddo datblygiad proffesiynol staff addysgu

Mae arweinwyr yn hyrwyddo diwylliant cryf o ddysgu proffesiynol a chydweithio. Mae staff yn cydweithio'n hynod effeithiol o fewn yr ysgol wrth rannu arfer dda yn dilyn ymchwil proffesiynol. Maent yn aml yn rhaeadru'r  arfer orau mewn cyfarfodydd ac yn barod i ymgymryd â strategaethau a dulliau newydd o weithio.

Mae athrawon yn hyfforddi ac yn cefnogi staff mewn ysgolion eraill er budd disgyblion. Er enghraifft, maen nhw'n uwch-sgilio staff mewn ysgolion prif ffrwd ar y dulliau mwyaf effeithiol o gefnogi disgyblion sy'n rhannu eu hamser rhwng Hafod Lon ac ysgol brif ffrwd. Yn ogystal, mae'r staff yn aml yn cefnogi'r awdurdod lleol i gynnal sesiynau rhannu gwybodaeth a'r arfer orau mewn addysg disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol i ysgolion y sir.

Mae trefniadau adolygu datblygiad proffesiynol yn gadarn ac yn effeithiol. Mae gan staff amcanion clir a mesuradwy sy’n cyd-fynd a blaenoriaethau’r ysgol, ac mae ganddynt lais dylanwadol wrth geisio cyfleoedd datblygiad proffesiynol personol. O ganlyniad, mae rheoli datblygiad staff yn gwneud cyfraniad gwerthfawr at wella addysgu, dysgu a datblygiad medrau disgyblion.

### Llywodraethu

Mae gan y llywodraethwyr wybodaeth gynhwysfawr am sefyllfa gyfredol yr ysgol. Maent yn ymweld yn rheolaidd er mwyn dod i ddeall agweddau penodol o waith yr ysgol yn well. Mae hyn yn eu harfogi i herio a chefnogi arweinwyr yn effeithiol. Mae gan y llywodraethwyr afael gynhwysfawr ar gyllid yr ysgol, gan gynnwys y camau maent yn eu cymryd i leihau effaith tlodi ar ddisgyblion.

### Rheoli cyllid

Mae gan y pennaeth a’r corff llywodraethol afael gadarn ar gyllid yr ysgol. Maent yn rheoli’r cyllid yn llwyddiannus sy’n caniatáu iddynt fuddsoddi mewn lefelau staffio sy’n cefnogi addysgu a dysgu o ansawdd uchel a chymorth ar gyfer datblygiad unigolion. Maent yn darparu adnoddau safonol sy’n cael eu defnyddio’n fedrus ar gyfer diwallu anghenion lles a chynnydd bob disgybl.

## Gwybodaeth ychwanegol

Nid yw trefniadau’r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder.

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer rheoli’r safle yn rhoi unrhyw achos i bryderu.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn briodol, gan gynnwys defnyddio'r grant datblygu disgyblion.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni/gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol / aelodau'r pwyllgor rheoli trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni/gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddisgyblion…'* neu *'ychydig iawn o ddisgyblion…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 07/05/2026